



Department for Levelling Up,  
Housing & Communities



UK Government  
Llywodraeth y DU



## **Disgrifiad Swydd – Swyddog Cymorth Prosiect – Cysylltu Athrawon â Diwydiant**

- Swydd wag:** 1 x swydd lawn amser ar gael i ddarparu'r prosiect yn awdurdod Rhondda Cynon Taf
- Yn atebol i:** Prif Swyddog Gweithredol a Swyddog Prosiect STEM Cymru
- Tiriogaeth /Rhanbarth:** Ardal Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Lleoliad:** Gartref
- Oriau:** Llawn amser 37.5 awr y dydd (fel arfer rhwng 8.30 – 4.30pm, ond bydd angen gweithio ambell noswaith, yn dibynnu ar amseroedd digwyddiadau a gynhelir ar ôl ysgol).
- Dyddiad Cychwyn:** Cyn gynted â phosibl
- Hyd contract:** Contract tymor penodol hyd 30 Mehefin 2022 yn gweithio ar y prosiect uchod
- Cyflog:** cyfwerth â £26,000-£30,000 pro rata (a chostau teithio) yn dibynnu ar brofiad
- Diben y Contract:** Gweithio dan gyfarwyddyd tîm rheolwyr STEM Cymru, a'r Swyddog Prosiect i ddarparu cymorth marchnata a gweinyddol i ddarparu'r prosiect peilot yn llwyddiannus ar gyfer ardal Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gyllidir gan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

### **Disgrifiad o'r Prosiect:**

Bydd y Prosiect Cysylltu Athrawon â Diwydiant yn creu a darparu cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer gweithwyr addysgu proffesiynol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd digwyddiadau yn cyflwyno athrawon i gyffro a rhyfeddodau gweithgynhyrchu a pheirianeg a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gyrfaoedd arloesol a gwerth chweil amrywiol sydd ar gael yn y sectorau Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Creadigol a Digidol ac Ynni a'r Amgylchedd yn y rhanbarth.

Bydd y prosiect hefyd yn rhoi'r cyfle i athrawon gael siaradwyr gwadd i ymweld â'u hysgolion i siarad mewn gwasanaethau disgyblion, diwrnodau allgyrsiol neu ddigwyddiadau gyrfaoedd eraill.

### **Manyleb Person:**

Byddai'r swydd hon yn ddelfrydol ar gyfer ymgeisydd sy'n chwilio am swydd fyrdymor ac sydd â phrofiad o farchnata, digwyddiadau neu ddarparu cymorth gweinyddol. Byddai diddordeb mewn



gweithio gydag ysgolion neu addysg, neu brofiad o wneud hynny, yn fuddiol ar gyfer y swydd hefyd.

Byddai'r contract yn addas hefyd ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn cyfnod sabothol neu secondiad.

### **Prif feysydd cyfrifoldeb ac atebolrwydd:**

- Trefnu a datblygu deunyddiau marchnata ar gyfer y prosiect uchod
- Gweithio dan Brif Swyddog Gweithredol a thîm rheoli prosiect STEM Cymru
- Gweithio gyda'r Swyddog Prosiect i gadw cofnodion o'r holl weithgareddau a gwybodaeth am y prosiect
- Sefydlu system ar gyfer cofrestru cynrychiolwyr a chael adborth
- Darparu data i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cydlynnydd Prosiectau
- Rheoli archebion digwyddiadau a wneir gan y Swyddog Prosiect ar gyfer hyrwyddo
- Cysylltu â'r Swyddog Prosiect i gadarnhau rhaglenni digwyddiadau ac anghenion siaradwyr/ cynrychiolwyr
- Cynorthwyo'r Swyddog Prosiect i archebu lleoliadau
- Cysylltu â Swyddog Gweinyddu a Marchnata STEM Cymru ar waith prosiect cyffredin
- Marchnata digwyddiadau i ysgolion a chadw rhestr cynrychiolwyr
- Cadarnhau gwasanaeth arlwyio a gofynion dietegol cynrychiolwyr ar gyfer digwyddiadau
- Cynorthwyo'r Swyddog Prosiect gydag elfennau iechyd a diogelwch y prosiect, gan gynnwys asesiadau risg a champau gweithredu
- Mynychu digwyddiadau a chefnogi'r Swyddog Prosiect yn ôl yr angen
- Hyrwyddo gweithgarwch peilot ar gyfer sgysiau yn yr ysgol
- Mynychu cyfarfodydd grŵp prosiect
- Adrodd yn rheolaidd i'r Prif Swyddog Gweithredol
- Cysylltu â gwerthuswyr y Prosiect
- Unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n ofynnol gan y tîm rheoli Prosiect

### **Sgiliau a Phrofiad Hanfodol**

- Profiad o weithio yn y byd addysg a/neu ddiwydiant a chysylltu â'r sectorau hyn
- Profiad o reoli prosiect/arwain
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a gallu amlwg i gyfathrebu ag uwch reolwyr mewn addysg, diwydiant a chyrrff proffesiynol
- Hunangymhelliant a'r gallu i weithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun
- Ymrwymiad i helpu i dywys pobl ifanc i yrfaeodd STEM
- Sgiliau gweinyddu cyffredinol
- Trafnidiaeth eich hun

### **Sgiliau a Phrofiad Dymunol**

- Profiad o drefnu digwyddiadau a siaradwyr



Department for Levelling Up,  
Housing & Communities



UK Government  
Llywodraeth y DU



- Gradd berthnasol
- Cysylltiadau mewn diwydiant a/neu addysg
- Profiad o ddigwyddiadau neu allgymorth ysgolion
- Gwybodaeth am y cwricwlwm presennol a Chwricwlwm i Gymru 2022
- Siarad Cymraeg